**CWESTIYNAU CYFFREDIN - Adran 46 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (Gweithgareddau Amaethyddol Anawdurdodedig)**

***Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn gwbl gynhwysfawr, a dim ond rhoi awgrymiadau o ran y camau y gellid eu cymryd y mae'n ei wneud. Bydd angen edrych ar bob achos yn unigol a bydd angen i'r rhai sy'n ceisio defnyddio adran 46 ofyn iddynt hwy eu hunain gwestiynau penodol o ran a ellir dosbarthu'r gweithgaredd yn un amaethyddol a dangos bod pob ymgais wedi'i wneud i ddatrys problemau ac anghydfodau.***

***Nid oes statws cyfreithiol i'r atebion a roddir isod. Mewn achosion o ansicrwydd, cyfeiriwch at Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu ymgynghorwch â'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun.***

***Dylid darllen bod pob cyfeiriad at "adran 46" yn cyfeirio at adran 46 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.***

**C. 1. Mae gan y deiliaid hawliau ar y comin ormod o ddefaid, a fyddai'r gweithgaredd hwn yn dod o dan Adran 46?**

A. Rhagdybir yn yr achos hwn fod gan y rhai sy'n pori'r defaid hawl comin y mae ganddynt hawliad iddo drwy gofnod yn y gofrestr tiroedd comin. Er eu bod yn mynd y tu hwnt i'w hawliau, byddai angen cael tystiolaeth bod y gweithgaredd hwn yn andwyol i bobl eraill â hawliau dros y tir, y rhai sy'n berchen ar y tir neu'r budd cyhoeddus. Os nad effeithir ar unrhyw un o'r grwpiau hyn, ni fyddai awydd i ddilyn achos o orbori honedig drwy ddefnyddio adran 46. Byddai angen i'r tirfeddiannwr neu ddeiliaid hawliau eraill ymdrin â'r achos ar y cyd â'r unigolyn sy'n gorbori. Dim ond pe bai maint y broblem yn anghymesur â'r ardal o dir comin y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio barn a chymryd camau.

**C.2. Mae llawer gormod o bori ar ein comin, a all adran 46 gael ei defnyddio i ddatrys y broblem hon?**

A. Os gellir profi bod y sawl sy'n achosi i'r comin gael ei orbori yn cyflawni'r gweithgaredd hwn heb hawl gyfreithiol i wneud hynny, efallai y bydd modd gorfodi gan ddefnyddio pwerau o dan adran 46. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhai y mae'r gweithgaredd hwn yn effeithio arnynt (deiliaid hawliau / perchenogion) ddangos yn gyntaf eu bod wedi ystyried pob llwybr arall a bod pob ymgais wedi'i wneud i ddatrys unrhyw anghydfodau yn ffurfiol drwy wasanaeth cyfryngu.

**C. 3. Dim ond hawliau am wartheg sydd gan un o'r cominwyr; fodd bynnag, nid yw'n berchen ar unrhyw wartheg ac mae'n pori defaid ar y comin yn lle hynny. A ellir defnyddio adran 46 i symud y defaid a mynnu mai dim ond i bori gwartheg gan y cominwr hwn y defnyddir y comin?**

A. Na ellir, byddai'n rhaid i ddeiliaid hawliau eraill a'r perchennog ymdrin â'r achos hwn. Gan mai deiliad hawliau yw perchennog y defaid ac er ei fod yn gweithredu y tu hwnt i delerau ei hawliad o bosibl, mae'n arfer ei hawl comin.

Byddai angen i ddeiliaid hawliau eraill ystyried yr effaith y mae'r anifeiliaid yn ei chael ac a yw'r ffaith mai defaid sy'n cael eu pori yn hytrach na gwartheg yn cael effaith andwyol ar y tir comin. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol defnyddio adran 46 yn yr achos hwn.

**C. 4. Mae perchennog y comin yn pori llawer o anifeiliaid ar y comin sy'n golygu, er bod hawliau gan nifer o gominwyr, nad oes digon o dir pori i arfer yr hawliau hyn yn llawn. A ellir defnyddio adran 46 i atal y perchennog rhag rhoi cynifer o anifeiliaid ar y comin?**

A. O safbwynt cyffredinol, dim ond ei anifeiliaid ei hun y caiff perchennog y comin eu pori ar y comin, cyn belled nad yw gwneud hynny'n ymyrryd ar hawliau'r cominwyr. Yr unig dro y gellir defnyddio pwerau Adran 46 yw pan fydd gweithgarwch heb awdurdod yn digwydd. Felly, mewn sefyllfa o'r fath, byddai'n rhaid ystyried hawliau penodol y perchennog cyn penderfynu defnyddio'r pwerau o dan Adran 46.

**C. 5. Caiff y comin ei danbori ac o ganlyniad, mae'n llawn tyfiant ac yn peri anawsterau i'r rhai sy'n defnyddio'r comin at ddibenion hamdden.**

A. Ni fyddai'n briodol defnyddio adran 46 yn yr achos hwn; ni all Gweinidogion Cymru orfodi cominwyr i arfer eu hawliau.

**C.6. Mae gennym nifer o gominwyr nad ydynt yn arfer eu hawliau, ac mae cominwyr eraill wedi manteisio ar hyn ac yn pori y tu hwnt i'w hawliau. A ellir defnyddio adran 46 i roi'r gorau i'r achosion anawdurdodedig hyn o fenthyca hawliau?**

A. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i chi brofi bod benthyca hawliau i bori y tu hwnt i'w cwota da byw yn andwyol i fuddiannau personau â hawliau dros y tir, y rhai sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu er budd y cyhoedd. Yn y lle cyntaf, dylid ffurfioli benthyca hawliau yn anawdurdodedig o dan *Orchymyn Hollti Hawliau Dros Dro (Cymru) 2012*.

**C. 7. Mae llawer o ddefaid wedi ymddangos ar ein comin yn ddiweddar, nid ydym yn gwybod pwy sy'n berchen arnynt, ac a allwn ddefnyddio adran 46 i'w symud?**

A. Na allwch. Dim ond o dan amgylchiadau o'r fath pan fo'r perchennog yn hysbys y gellir defnyddio adran 46. Er mwyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad gorfodi, mae'n ofynnol cael manylion yr unigolyn y cyflwynir yr hysbysiad iddo.

**C. 8. Mae gan ein comin heneb o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n denu llawer o ymwelwyr. Defnyddir y comin hefyd i bori gwartheg a defaid ac nid yw ymwelwyr yn hoffi cerdded ymhlith yr anifeiliaid. Yn ogystal, mae'r anifeiliaid yn baeddu'r ardaloedd ger y safle hanesyddol sy'n annymunol i ymwelwyr. A allwn ddefnyddio adran 46 i symud yr holl anifeiliaid o'r comin fel y gallwn ddenu mwy o ymwelwyr i weld ein heneb?**

A. Na allwch, ni ellid defnyddio adran 46 at y diben hwn. Mae gan y rhai â hawliau comin hawl i bori da byw ar y comin; ni fyddai'n gyfreithlon nac yn bosibl symud anifeiliaid sy'n pori'n gyfreithlon yn y ffordd hon.

**C. 9. Mae'r pentrefwyr y mae'r comin y tu cefn i'w tai wedi bod yn torri gwair ar y comin / maes y pentref i wneud cae pêl-droed. A allwn ddefnyddio adran 46 i'w hatal rhag gwneud hyn am ei fod yn dinistrio'r tir pori i'n defaid.**

A. Na allwch, nid yw torri gwair i wneud cae pêl-droed yn weithgaredd amaethyddol ac felly mae y tu hwnt i gwmpas Deddf 2006. Byddai angen i chi geisio defnyddio dulliau eraill.

**C. 10. Mae pobl o'r pentref yn defnyddio'r comin yn gyson i ddympio eu gwastraff garddio, a allwn ddefnyddio adran 46 i atal y gweithgaredd hwn?**

A. Na allwch. Nid yw hyn yn weithgaredd amaethyddol; byddai angen i'r rhai â hawliau gyfryngu â'r pentrefwyr hynny sy'n gyfrifol am ddympio sbwriel.

**C. 11. Mae trigolion sy'n byw ger y comin yn defnyddio'r tir i fynd â'u ci am dro ac mae llawer o'r cŵn yn crwydro'n rhydd ac yn achosi perygl i ddefaid ar y comin. A allwn ddefnyddio adran 46 i atal y bobl hyn rhag mynd â'u ci am dro ar y tir comin?**

A. Na allwch. Nid yw mynd â chi am dro yn weithgaredd amaethyddol. Mae adran 4 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003 ac adran 23 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cynnwys darpariaethau yn caniatáu i gŵn gael eu cyfyngu ar Dir Mynediad. Gellir gosod cyfyngiadau ar dir comin neu rostir a reolir i fridio neu saethu grugieir, mewn perthynas â mynd â chŵn am dro, yn ystod cyfnodau penodol. Yn yr un modd, gall perchenogion tir a ddefnyddir at ddibenion wyna gyfyngu hefyd ar hawl mynediad mewn perthynas â mynd â chŵn am dro mewn unrhyw gae neu glostir ar dir lle y cedwir defaid. Fodd bynnag, gan ei bod yn annhebygol bod caeau a chlostiroedd o'r fath wedi'u cofrestru'n dir comin, mae'n annhebygol y gellid defnyddio'r eithriad hwn mewn perthynas â phori defaid ar dir comin.

**C.12. Bob blwyddyn, bydd y trigolion lleol yn adeiladu coelcerth ar 5 Tachwedd ar y comin ac yn cynnau tân gwyllt. Mae'r gweithgareddau hyn yn codi ofn ar y stoc; a allwn ddefnyddio adran 46 i atal gweithgareddau cyhoeddus o'r fath rhag digwydd?**

A. Na allwch. Nid yw hyn yn weithgaredd amaethyddol. Nid oes unrhyw gyfreithiau penodol yn erbyn cael coelcerth. Fodd bynnag, mae'n anghyfreithlon cael coelcerth ar rai tiroedd comin y mae'r cyhoedd yn berchen arnynt. Os oes perchennog preifat ar eich comin a bod ymdrechion cyfryngu wedi methu rhwng y perchennog / deiliaid hawliau a'r pentrefwyr, efallai y bydd angen i chi ystyried y cyfreithiau sy'n ymdrin â niwsans. Mae'n drosedd

gwaredu gwastraff domestig mewn ffordd sy'n debygol o greu llygredd neu niwed i iechyd y cyhoedd, sy'n cynnwys llosgi deunyddiau plastig, deunyddiau rwber neu ddeunyddiau wedi'u paentio. Dylech gyfeirio at Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**C. 13. Mae rhai o'r cominwyr yn torri coed ac yn mynd â'r pren i'w losgi ar stofiau domestig. A ganiateir hyn neu a allwn ddefnyddio adran 46 i atal y gweithgaredd hwn?**

A. Na allwch. Ni fyddai adran 46 yn briodol yn yr achos hwn oherwydd nid ystyrir y gwaith o dorri coed yn weithgaredd amaethyddol. Mae'n bosibl bod gan diroedd comin sydd ag ardaloedd coediog hawliau mewn cysylltiad â'r tir hwn. Mae gan lawer o gominwyr hawliau casglu cynnud, hynny yw yr hawl i symud pren o'r comin. Mae hawl gan berchennog y comin i gwympo a symud y coed hynny sy'n tyfu'n naturiol ar y comin. Mewn achosion pan fydd y coed yn atal gallu cominwyr i arfer eu hawliau comin yn gyfan gwbl, gallant gwympo coed. Fodd bynnag, os mai dim ond atal cominwyr yn rhannol rhag arfer eu hawliau y mae'r coed yn ei wneud, byddai angen iddynt ddechrau achos cyfreithiol mewn perthynas â niwsans.

**C. 14. Mae gyrwyr oddi ar y ffordd a beicwyr cwad yn defnyddio ein comin, a allwn ddefnyddio adran 46 i reoli'r gweithgareddau hyn?**

A. Na allwch, mae'r mathau hyn o weithgareddau gwrthgymdeithasol y tu allan i gwmpas y Ddeddf. *(Mae Deddf Cyfraith Eiddo 1925 yn darparu bod gan y cyhoedd hawliau mynediad dros dir comin a thir gwastraff. Fodd bynnag, nid yw hawliau o'r fath yn cynnwys unrhyw hawl i dynnu neu yrru cerbyd, cert, tryc neu gerbyd arall ar y tir, nac i wersylla neu gynnau unrhyw danau ar dir o'r fath - byddai angen cadarnhau a ellid defnyddio'r Ddeddf hon mewn cysylltiad â cherbydau oddi ar y ffordd / beiciau cwad. Yn ogystal, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn nodi na all rhywun, heb awdurdod cyfreithlon, yrru cerbyd mecanyddol ar dir comin, rhostir na thir o unrhyw ddisgrifiad arall, nad yw'n dir sy'n rhan o ffordd. Ni all unigolyn yrru cerbyd mecanyddol ychwaith ar unrhyw ffordd a ddefnyddir fel llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig.)*

**C.15. Mae cominwyr yn llosgi'r eithin ar y comin yn rheolaidd. A ellir defnyddio adran 46 i atal hyn rhag digwydd?**

A. Yn gyntaf, bydd angen i chi gadarnhau prif ddiben y gweithgaredd. Os mai diben llosgi'r rhostir yw gwella'r grug ar ros grugieir, ystyrir hyn yn weithgaredd sy'n gysylltiedig â diben chwaraeon. Nid ystyrir magu adar hela (grugieir, ffesantod ac ati) at ddibenion chwaraeon yn weithgaredd amaethyddol. Mae magu da byw yn cynnwys unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlân, croen neu ffwr, neu at y diben o'i ddefnyddio i ffermio'r tir. Pan ystyrir mai magu a chadw adar at ddibenion chwaraeon yw'r prif weithgaredd, byddai er budd economaidd a byddai'r ffaith y caiff yr adar eu bwyta fel arfer wedyn yn ddiben eilaidd ac felly nis ystyrir yn weithgaredd amaethyddol.

Os llosgir yr eithin at ddibenion cynhyrchu tir pori gwell i gadw defaid, yna gellid ystyried hyn yn weithgaredd amaethyddol a phan wneir hyn yn ormodol neu'n anghyfreithlon a'r tu allan i delerau hawliau comin unigolion, gallai fod yn rhaid rheoleiddio'r gweithgaredd hwn.

**C. 16. Mae grŵp o gominwyr yn magu adar hela ar y comin. A ganiateir hyn neu a ellir defnyddio adran 46 i atal gweithgareddau o'r fath?**

A. Yn gyntaf, byddai angen i chi gadarnhau at ba ddiben y caiff yr adar hela eu magu. Os cedwir yr adar hela at ddiben cynhyrchu bwyd neu blu, yna efallai y bydd yn bosibl dangos bod hwn yn weithgaredd amaethyddol anghyfreithlon. Fodd bynnag, byddai'n dibynnu ar y niferoedd a byddai angen i chi ddangos bod magu'r adar yn cael effaith andwyol ar ddeiliaid hawliau eraill. Pe câi'r adar eu magu at ddibenion chwaraeon, ni fyddai'n briodol defnyddio adran 46 oherwydd ystyrid magu adar at ddibenion chwaraeon yn weithgaredd economaidd yn hytrach nag yn weithgaredd amaethyddol, er gwaethaf y ffaith bod yr adar yn cael eu bwyta wedyn fel arfer, sef diben eilaidd. Byddai angen ystyried dulliau eraill.

**C. 17. Mae cominwyr yn gadael anifeiliaid ar y comin yn gyson ac yn peidio â'u symud erbyn dyddiad penodol. A allant gael eu gorfodi i'w symud ar ddyddiad penodol drwy ddefnyddio adran 46?**

A. Mae peidio â symud anifeiliaid erbyn dyddiad penodol yn awgrymu methiant i gydymffurfio â rheolau lleol yn hytrach na hawliau cofrestredig unigolyn. Efallai y byddai angen symud anifeiliaid yn unol â rheolau anstatudol Cymdeithas. Pan fydd rhywun yn methu â chydymffurfio, byddai'n rhaid i'r Gymdeithas ymdrin â'r mater. Ni fyddai'n briodol defnyddio adran 46 a chynnwys Gweinidogion Cymru mewn anghydfod lleol yn y bôn.

**C. 18. Mae fy nghymydog yn mynnu rhoi porthiant atodol ar y comin. A allaf ddefnyddio adran 46 i'w atal rhag gwneud hynny?**

A. Na allwch, nid yw hyn yn ddefnydd priodol o adran 46. Fel rheol gyffredinol, ni chaniateir i gominwyr sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd neu sy'n pori anifeiliaid ar diroedd comin sydd â statws SoDdGA roi porthiant atodol i'w da byw. Yn ystod tywydd garw pan fo lles yn broblem, gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru roi cyngor. Gellir rhoi porthiant atodol ar dir nad yw'n rhan o gynllun amaeth-amgylchedd. Fodd bynnag, dylai cominwyr fod yn ymwybodol o'r niwed y gall hyn ei achosi a dylent symud ardaloedd bwydo, lle bynnag y bo'n bosibl, symud porthiant dros ben i leihau'r niwed i'r borfa, ac osgoi bwydo ar nodweddion archaeolegol neu'n agos atynt.

Cynghorir y rhai â hawliau comin sydd am roi porthiant atodol yn ystod tywydd garw i hysbysu tirfeddianwyr o'u bwriad i wneud hynny pan fyddant yn gwybod bod tirfeddianwyr yn cyfyngu ar yr arfer.

**C. 19. Mae gennym broblem o ran anifeiliaid heb eu sbaddu a gedwir ar y comin; a ellir defnyddio adran 46 i symud yr anifeiliaid hyn?**

A. Na ellir, byddai angen defnyddio Deddf Tiroedd Comin 1908 sy'n darparu'r pwerau mewn perthynas â throi allan yr holl anifeiliaid i bori ar diroedd comin. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r adegau pan all yr holl anifeiliaid neu'r holl anifeiliaid o fath, disgrifiad neu oedran penodol fod yn bresennol ar y comin ac o dan ba amodau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer symud unrhyw anifail sydd ar y comin yn groes i'r Rheoliadau.

**C. 20. Mae gennym gominwr sy'n pori lamas / alpacas ar y comin, rydym yn credu nad oes hawliau ganddo i wneud hynny; a ellir defnyddio adran 46 i symud yr anifeiliaid hyn?**

A. Gan ddibynnu ar fanylion penodol yr achos, mae'n bosibl yr ystyrid hyn yn weithgaredd amaethyddol anghyfreithlon. Fodd bynnag, byddai angen i chi geisio eglurhad o ran rôl yr anifeiliaid dan sylw ac wedyn ddangos y camau roeddech wedi'u cymryd i geisio symud yr anifeiliaid hyn o'r tir comin. Ni fyddech yn gallu defnyddio adran 46 oni bai bod pob llwybr cyfryngu arall wedi methu.

Gellir dadlau, am fod pori yn weithgaredd amaethyddol, fod yr anifeiliaid hyn o fudd i'r comin cyfan a fydd mewn amser o fudd i weddill y da byw ar y tir comin.

Mae'r math o anifeiliaid y gellir arfer hawliau mewn perthynas â hwy yn gyfyngedig. Yn hanesyddol, mae hawliau wedi'u cyfyngu i anifeiliaid yr oedd eu hangen at ddibenion aredig y tir (ceffylau ac ychen) ac anifeiliaid yr oedd eu hangen i deilo'r tir âr (gwartheg a defaid). Ni ellir defnyddio anifeiliaid eraill megis moch, geifr, lamas ac ati wrth arfer hawliau mewn perthynas ag aredig / teilo. Fodd bynnag, mae hawl mesobr hanesyddol sy'n caniatáu ar gyfer troi moch allan i bori mewn coetiroedd i'w galluogi i fwyta mes a mes ffawydd. Fel arfer, cyfyngir yr hawl hon i adegau priodol o'r flwyddyn pan fydd y mes a'r mes ffawydd ar y ddaear.

Mae Rhan 1 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn cynnwys adran ar amrywiadau pan all perchennog y comin a'r cominwr gytuno i amrywio hawl comin. Gallai'r amrywiad hwn gynnwys yr hawl i bori unrhyw anifail. Fodd bynnag, gall Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wrthod yr amrywiad hwn os yw o'r farn na all y tir y bwriedir amrywio'r hawl drosto gynnal arfer yr hawl.

**C. 21. Defnyddir ein comin i bori merlod ar gyfer hamddena, mae'r niferoedd yn amrywio a phan fyddant yn uchel, maent yn cael effaith andwyol ar y broses o fagu stoc arall. A allwn ddefnyddio adran 46 i gynnull y merlod hyn a'u symud o'r comin?**

A. Gan ddibynnu ar fanylion penodol yr achos, mae'n bosibl yr ystyrid hyn yn weithgaredd amaethyddol anghyfreithlon. Fodd bynnag, byddai angen i chi geisio eglurhad o ran rôl yr anifeiliaid dan sylw ac wedyn ddangos y camau roeddech wedi'u cymryd i geisio symud yr anifeiliaid hyn o'r tir comin. Ni fyddech yn gallu defnyddio adran 46 oni bai bod pob llwybr cyfryngu arall wedi methu. Yn ogystal, byddai angen i chi wybod i bwy yr oedd yr anifeiliaid yn perthyn. Yn hanesyddol, mae ceffylau o bob math wedi'u dympio ar diroedd

comin ac ni fyddech yn gallu defnyddio adran 46 oni bai bod modd nodi perchennog yr anifeiliaid.

Gellir dadlau, am fod pori yn weithgaredd amaethyddol, fod yr anifeiliaid hyn o fudd i'r comin cyfan a fydd mewn amser o fudd i weddill y da byw ar y tir comin.  Er mwyn dangos eu bod o fudd, byddai angen eu troi allan i bori ar y tir yn barhaol h.y. byddai angen iddynt fod yn bwydo o'r tir. Gellid wedyn ddangos bod hwn yn weithgaredd amaethyddol ac felly, gellid ei reoleiddio o dan adran 46 pe gellid dangos eu bod yn pori'n anghyfreithlon. Pe câi'r ceffylau eu troi allan i bori ar y tir ar sail ad hoc at ddibenion pori achlysurol, ni fyddai'n berthnasol dweud eu bod ar y comin at ddibenion amaethyddol ac felly byddai angen defnyddio dulliau cyfreithiol eraill.

Er mwyn diffinio statws y ceffyl, efallai y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y canllawiau canlynol:

- Y ceffyl gwaith - ceffylau a gaiff eu cadw neu eu magu at ddiben eu defnyddio ar y fferm, h.y. at ddiben amaethyddol.
- Y ceffyl rasio - ceffylau a ddefnyddir at ddibenion chwaraeon neu hamdden, ni chânt eu cadw at ddiben cynhyrchu amaethyddol ac felly ni chânt eu dosbarthu'n anifeiliaid amaethyddol ond gallant fod yn geffylau pori hefyd.
- Y ceffyl hamddena - ceffylau a defnyddir at ddibenion hamdden a phleser, ni chânt eu cadw at ddiben cynhyrchu amaethyddol ac felly ni chânt eu dosbarthu'n anifeiliaid amaethyddol ond gallant fod yn geffylau pori hefyd.
- Y ceffyl pori - mae defnyddio tir fel tir pori yn ddefnydd amaethyddol ac felly mae defnyddio tir i bori unrhyw un o'r mathau o geffylau a nodir yn ddefnydd amaethyddol, ond nid eu cadw. Byddai hyn yn cynnwys merlod lled-fferal ar y bryniau a'r tiroedd comin ledled Cymru y mae eu presenoldeb a'u gallu i bori o fudd i fywyd gwyllt Cymru a'r dirwedd lle maent yn crwydro.
- Cig ceffyl - mae bridio a chadw ceffylau at ddiben cynhyrchu bwyd yn weithgaredd amaethyddol.

**C. 22. Mae marchogion lleol yn defnyddio'r comin at ddibenion hamdden. Fodd bynnag, mae greoedd o ferlod gwyllt, yn benodol y meirch a'r ebolion, yn peri problemau i'r marchogion hyn ac rydym yn bryderus iawn y bydd damwain ddifrifol ar ein comin. A allwn ddefnyddio adran 46 i symud y meirch a'r ebolion o'r comin?**

A. Ni fyddai'n briodol defnyddio adran 46 yn yr achosion hyn; byddai angen i gominwyr â hawliau ddefnyddio Deddf Tiroedd Comin 1908 sy'n darparu'r pwerau mewn perthynas â throi allan yr holl anifeiliaid i bori ar diroedd comin. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r adegau pan all yr holl anifeiliaid neu'r holl anifeiliaid o fath, disgrifiad neu oedran penodol fod yn bresennol ar y comin ac

o dan ba amodau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer symud unrhyw anifail sydd ar y comin yn groes i'r Rheoliadau.